# Adroddiad Blynyddol 2021-22
# Cyngor Tref Trefynwy



# CYNNWYS


1. Gair o Groeso gan y Maer
2. Ynglŷn â Chyngor Tref Trefynwy
3. Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015
4. Beth y Mae Cyngor Tref Trefynwy Wedi Bod yn ei Wneud yn 2021-22
   - a. Partneriaethau
   - b. Digwyddiadau Cymunedol
   - c. Grantiau Cymunedol
   - ch. Adolygiad Swyddfa Gyfan
   - d. Tabl o Nodau Llesiant Cenedlaethol
   - dd. Tabl o Nodau Llesiant Lleol
   - e. Bioamrywiaeth
5. Casgliad
6. ATODIAD 1: Eich Cynghorwyr
7. ATODIAD 2: Presenoldeb Cynghorwyr mewn Cyfarfodydd

# 8. ATODIAD 3: Cyfrifon Ariannol 2020-21

# 1. GAIR O GROESO GAN Y MAER

Annwyl drigolion Trefynwy,

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wrth i ni symud ymlaen o'r Pandemig, rydym ni fel Cyngor Tref wedi dychwelyd i normal, yn araf deg, gan gynnal cyfarfodydd Hybrid yn Neuadd y Sir ac yng Nghanolfan Gymunedol Bridges.

Rydym hefyd wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â grwpiau Cymunedol lleol drwy gytuno ar Gytundebau Partneriaeth gyda dau sefydliad gwirfoddol arall.

Dyma'r grwpiau rydym yn eu cefnogi yn awr; ACE Trefynwy (Action Climate Emergency) a Phwyllgor trefnu'r Carnifal, Cyngor ar Bopeth, Mind Sir Fynwy, a Theatr y Savoy. Mae hyn yn ogystal â chefnogi grwpiau eraill yn y dref drwy ein cynllun Grantiau Cymunedol a Mwy.

Roedd yn braf iawn gallu cynnal tri Digwyddiad Dinesig unwaith eto: Gwasanaeth Dinesig y Maer, coffâd Canmlwyddiant y Gofeb Rhyfel a Diwrnod y Cofio.

Mae'r newidiadau a gyflwynwyd y llynedd i'n Systemau Gweinyddol yn cael eu rhoi ar waith yn awr, sy'n golygu bod gweithrediad y cyngor o ddydd i ddydd yn fwy effeithlon.

Dymuniadau gorau,

Terry Christopher

Maer y Dref

Mai 2021-Mai 2022



# 2. YNGLŶN Â CHYNGOR TREF TREFYNWY

**Cefndir**

Cyngor Tref Trefynwy yw'r haen o lywodraeth leol sydd agosaf at y gymuned ac mae'n cynrychioli safbwyntiau a buddiannau pobl Trefynwy i awdurdodau eraill, gan gynnwys Cyngor Sir Fynwy, yr Heddlu, Llywodraeth Leol ac eraill. Mae'n cynnwys 16 Cynghorydd etholedig sy'n cwmpasu 5 ward Trefynwy; Drybridge, Overmonnow, Osbaston gyda Dixton, Wyesham a Town. Mae rhestr lawn o'r Cynghorwyr yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

Cafodd mwyafrif y cynghorwyr presennol eu hethol ym mis Mai 2017 i wasanaethu am dymor o bum mlynedd yn y swydd a gyda'i gilydd maent yn gwasanaethu poblogaeth o 10,508 (cyfrifiad 2011). Eleni yw blwyddyn derfynol y Cyngor hwn a bydd etholiad yn cael ei gynnal ym mis Mai 2022.

Mae'r Maer a'r Dirprwy Faer yn cael eu hethol bob blwyddyn gan y cyngor yn y cyfarfod blynyddol ym mis Mai.

**Y Pandemig**

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf gwelwyd newidiadau mawr yn fyd-eang, yn genedlaethol ac yn lleol yn ogystal ag i Gyngor Tref Trefynwy. Yn ystod y flwyddyn ddinesig hon dechreuodd y cyfarfodydd hybrid a oedd yn golygu y gallai Cynghorwyr ddychwelyd i Neuadd y Sir neu barhau i fynychu o bell drwy adnodd Cynadledda Zoom. Mae'r cyfarfodydd hybrid wedi galluogi trafodaeth wych yn Siambr y Cyngor ac o adref ac mae wedi galluogi i aelodau'r cyhoedd gymryd rhan yn gyfleus yn ein cyfarfodydd wythnosol neu eu harsylwi.

Drwy gydol y flwyddyn ddinesig hon mae'r staff wedi parhau i weithio'n hyblyg ac maent wedi gallu gweithio o adref yn ogystal ag yn Neuadd y Sir ar ôl i'r Cyngor brynu offer cartref addas. Mae staff wedi gallu croesawu trigolion yn ôl i'r swyddfa ac maent wedi gallu ateb ymholiadau gan aelodau'r cyhoedd mewn ffordd sy'n ymdebygu i'r cyfnod cyn y pandemig.

**Pwyllgorau**

Mae pob Cyngor yn cynnal ei fusnes drwy gyfarfodydd ffurfiol sy'n cael harwain gan agenda gyda diben clir o wneud penderfyniadau democrataidd er budd y dref. Yn ogystal â'r Cyngor Llawn, sy'n cynnwys pob aelod etholedig, mae gan y Cyngor dri phwyllgor sy'n cyfarfod yn rheolaidd, sef:

- Y Pwyllgor Cyllid a Pholisi, sy'n cyfarfod 4 gwaith y flwyddyn.
- Y Pwyllgor Pobl a Lleoedd, sy'n cyfarfod unwaith y mis.
- Y Pwyllgor Cynllunio, sy'n cyfarfod ddwywaith y mis.

Mae pob cyfarfod yn agored i'r cyhoedd ac maent fel arfer yn cael eu cynnal yn Neuadd y Sir, Sgwâr Agincourt, Trefynwy yn ogystal â bod ar gael drwy adnodd Cynadledda Zoom. Mae pob agenda yn darparu cyfle i aelodau'r cyhoedd annerch y pwyllgor neu'r Cyngor yn ystod eitem "Cyfranogiad Cyhoeddus" dynodedig. Mae hyn yn sicrhau bod cyfle i aelodau'r gymuned gymryd rhan yn y broses o wneud

penderfyniadau.  Gwahoddir gwesteion i'r cyfarfodydd yn achlysurol i drafod eitemau penodol ar yr agenda.

Mae gan Gynghorwyr ddyletswydd i fynychu pob cyfarfod ac mae'n rhaid iddynt ddarparu rheswm dros absenoldeb sy'n dderbyniol i'r Cyngor os na allant eu mynychu.  Mae cofnod o bresenoldeb pob Cynghorydd yn y cyfarfodydd yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn.

**<u>Cyfrifoldebau</u>**

Mae Cyngor Tref Trefynwy a Chyngor Sir Fynwy yn ddau awdurdod cwbl ar wahân, sydd â chyfrifoldebau gwahanol, fodd bynnag, mae'r ddau awdurdod yn cydweithio'n agos ar faterion sy'n effeithio ar Drefynwy a'i thrigolion.

Mae gan Gyngor Tref Trefynwy nifer o asedau yn y Dref gan gynnwys y gofeb rhyfel yn Sgwâr St James, y toiledau cyhoeddus yn Stryd Agincourt, mwy na 40 o finiau gwastraff cŵn, Parc Chwarae Drybridge, Cae y Dref a nifer o focsys plannu wedi'u lleoli yn y dref ac mewn ardaloedd preswyl.  Mae Cyngor y Dref hefyd yn gyfrifol am gynnal a chadw bocsys plannu pren newydd yn Stryd Monnow, a gyflwynwyd fel rhan o'r mesurau COVID-19 a osodwyd gan Gyngor Sir Fynwy.

Mae Cyngor Tref Trefynwy hefyd yn darparu'r coed Nadolig, addurniadau stryd, er enghraifft goleuadau Nadolig a baneri a'r baneri hanesyddol a arddangoswyd ar Stryd Monnow a adnewyddwyd yn ystod y flwyddyn ddinesig hon.

Yn ogystal, mae Cyngor Tref Trefynwy hefyd yn cyfrannu at nifer o wasanaethau sy'n cael eu darparu gan Gyngor Sir Fynwy, er enghraifft teledu cylch cyfyng, glanhau a chynnal a chadw toiledau cyhoeddus Stryd Blestium, glanhau strydoedd a chynlluniau chwarae haf i blant lleol eu mynychu.

Fel rhan o'n cyfrifoldebau, mae'r Cyngor Tref yn cynnal a/neu'n darparu cymorth ariannol i ddigwyddiadau cyhoeddus yn y dref, er enghraifft y Gorymdeithiau Rhyddid ar gyfer y lluoedd arfog, digwyddiadau beicio a'r ŵyl gerddoriaeth ymhlith eraill, er na chafwyd cyfle i gynnal cymaint o ddigwyddiadau ag arfer oherwydd y pandemig.

Mae'r Cyngor Tref hefyd yn darparu cymorth ariannol i nifer o sefydliadau lleol sy'n darparu budd i'r gymuned leol drwy gyllid grant neu gytundebau partneriaeth.

**<u>Cyllid</u>**


Mae'n ofynnol i'r Cyngor Tref bennu cyllideb flynyddol bob blwyddyn.  Y gyllideb ar gyfer 2022-23 yw £468,506.  O'r swm hwn, mae Cyngor Tref Trefynwy yn penderfynu faint i wneud cais amdano gan Gyngor Sir Fynwy, sy'n casglu'r cyllid drwy'r Dreth Gyngor.  Gelwir hyn yn ofyniad praesept.  Cytunodd y Cyngor i ariannu £40,000 o'r gyllideb gan ddefnyddio'r Cronfeydd Cyffredinol wrth Gefn a ddelir eisoes gan y Cyngor, gan leihau'r cais praesept.  O ganlyniad, y praesept ar gyfer 2022-23 yw £428,506 sy'n cynrychioli cynnydd o £45,245 o 2021-22.

*Dylid nodi y gwelwyd gostyngiad yn y cais praesept yn 2021-22 o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, er mwyn rhoi ystyriaeth i effaith y pandemig ar drigolion lleol.*

Mae datganiad ariannol ar gyfer diwedd y flwyddyn wedi'i gynnwys yn Atodiad 3.

# 3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (Cymru) 2015

"Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried effaith eu penderfyniadau yn yr hirdymor, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau cyson fel tlodi, anghydraddoldeb iechyd a newid yn yr hinsawdd." (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru). Cyngor Tref Trefynwy yw un o'r cyrff cyhoeddus sy'n cael ei lywodraethu gan y ddeddfwriaeth hon. Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi'r 7 nod llesiant y dylem geisio eu cyflawni, a ddangosir isod.




Mae'n hollbwysig, fel cyngor, bod pob penderfyniad yn ystyried y nodau llesiant er budd cenedlaethau'r dyfodol yn Nhrefynwy, ond hefyd y Cynllun Llesiant y mae Cyngor Sir Fynwy wedi'i bennu ar gyfer y Sir gyfan o ganlyniad i Ddeddf 2015.

Mae pedwar amcan i Gynllun Llesiant ar gyfer Sir Fynwy:

1. Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd i blant a phobl ifanc.
2. Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â newid demograffig.
3. Diogelu a gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol wrth liniaru ac addasu i effaith y newid yn yr hinsawdd.
4. Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd ac sydd â chysylltiadau da.

# 4. BETH Y MAE CYNGOR TREF TREFYNWY WEDI BOD YN EI WNEUD YN 2021-22

Nid yw'n syndod bod 2021-22 wedi bod yn flwyddyn anghyffredin arall i'r Cyngor Tref fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi gallu trefnu nifer o ddigwyddiadau Dinesig gan gynnwys Gwasanaeth Dinesig y Maer, Coffâd Canmlwyddiant y Gofeb Rhyfel a gorymdaith a gwasanaeth Diwrnod y Cofio. Yn ogystal, yn 2021 dychwelodd yr Orymdaith Llusernau Nadolig wych a Marchnad Nadolig a drefnwyd mewn partneriaeth â Siambr Fasnach Trefynwy.

Yn ogystal, gwelwyd rhai newidiadau staffio sylweddol gyda'r Clercod Tref a Swyddogion Ariannol Cyfrifol presennol yn cael eu penodi ar sail rhannu swydd o fis Rhagfyr 2021 ac ychwanegiad 2 aelod o staff arall (1 dros dro ac 1 parhaol) i gefnogi'r Clercod Tref.

Ymhlith rhai cyflawniadau allweddol i'r Cyngor mae:

## a. Partneriaethau

Cyflwynodd y pandemig heriau i lawer o sefydliadau cymunedol ac elusennau yn yr ardal, a gwelwyd lleihad sylweddol mewn cyfleoedd i godi arian. Oherwydd hyn, sefydlodd Cyngor Tref Trefynwy bartneriaethau tair blynedd ychwanegol gyda dau sefydliad lleol i ddarparu sefydlogrwydd ariannol a sicrwydd ar gyfer y dyfodol rhagweladwy.

Mae'r partneriaethau hyn gyda:

- Pwyllgor Carnifal Trefynwy

  Darparodd y bartneriaeth gyda Phwyllgor Carnifal Trefynwy £8000 y flwyddyn i sefydliad Carnifal Trefynwy ar gyfer 3 blynedd.

- ACE Trefynwy

  Dechreuodd ACE Trefynwy weithio fel gweithgor Cyngor Tref Trefynwy ond ystyriwyd y byddai'n fwy effeithiol fel grŵp cymunedol cyfansoddiadol a oedd yn gweithio gyda'r Cyngor Tref ac yn cael ei ariannu ganddynt. Mae'r bartneriaeth yn un tair blynedd sy'n sicrhau'r swm o £15,000 y flwyddyn at ddiben darparu arweiniad, cyngor a digwyddiadau ar gyfer y Cyngor Tref a thrigolion Trefynwy o ran y camau gweithredu yn erbyn yr argyfwng hinsawdd a natur.

Y Nodau Llesiant Cenedlaethol a Gyflawnwyd :

Cymru o Gymunedau Cydlynus

Cymru Lewyrchus

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Amcanion Llesiant Lleol:

1. Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd i blant a phobl ifanc

2. Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â newid demograffig

3. Diogelu a gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol wrth liniaru ac addasu i effaith y newid yn yr hinsawdd

**b. Digwyddiadau Cymunedol**

Er gwaethaf y pandemig, llwyddodd Cyngor Tref Trefynwy i gefnogi a/neu gynnal y digwyddiadau canlynol yn 2021-22:

- Gŵyl Dyfodol yr Hinsawdd



Ym mis Medi 2021 cynhaliwyd yr Ŵyl Dyfodol yr Hinsawdd gyntaf gan weithgor y Cyngor Tref, ACE Trefynwy. Cynhaliwyd yr ŵyl dros saith niwrnod gyda gweithdai, sgyrsiau, stondinau, arddangosfeydd a thrafodaethau gwleidyddol mewn safleoedd amrywiol o amgylch Trefynwy. Diben yr ŵyl oedd pwysleisio pwysigrwydd gweithredu mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Cafodd yr ŵyl ei chefnogi gan Gyngor Tref Trefynwy drwy gyllid ac roedd nifer o'r Cynghorwyr yn rhan o'r tîm trefnu craidd. Arweiniodd llwyddiant yr ŵyl hon at ddatblygu cytundeb partneriaeth rhwng y Cyngor Tref ac ACE Trefynwy, gyda'r gobaith y bydd y grŵp yn gallu datblygu'r ŵyl ymhellach gyda chymorth ariannol ychwanegol. *(ffotograff: Gwefan ACE Trefynwy)*

- Coffâd Canmlwyddiant y Gofeb Rhyfel



Eleni daeth i'r amlwg mai'r Cyngor Tref oedd yn gyfrifol am y Gofeb Rhyfel yn Sgwâr St James ac felly, ym mis Hydref, fe wnaethom gynnal gwasanaeth i goffau canmlwyddiant ers ei dadorchuddio. Mynychwyd y digwyddiad hwn gan gyn-filwyr lleol, plant ysgol lleol a chlerigwyr y dref. Roedd yn ddigwyddiad a fynychwyd gan lawer o aelodau'r cyhoedd ac a oedd yn atgoffa pawb a oedd yn bresennol am y rheswm dros gael Cofeb Rhyfel ac roedd yn gyfle i feddwl a diolch i'r rhai yr oedd yn eu hanrhydeddu. (ffotograff: Google images)

- Digwyddiad Nadolig 2021

Yn 2021 dychwelodd yr Orymdaith Llusernau Nadolig wych, gyda'r thema "Nadolig ym Myd y Ffilmiau". Cafodd y digwyddiad gefnogaeth wych unwaith eto gan y trigolion lleol gyda'u llusernau. Mae'r orymdaith Llusernau Nadolig yn ddigwyddiad y Cyngor Tref sy'n cael ei ariannu gan y cyngor gyda nifer o Gynghorwyr yn cydweithio'n agos gydag aelodau'r cyhoedd i gynnal achlysur arbennig dros yr ŵyl. Dychwelodd y Bont Obaith hefyd a osodwyd ar gatiau Neuadd y Sir ar gyfer y cyfnod o fis Rhagfyr i fis Mawrth. (ffotograff: Christmas Lantern Parade Facebook)



- Marchnad Nadolig 2021

Ar ôl yr Orymdaith Llusernau, bu'r Cyngor Tref yn gweithio'n agos gyda'r Siambr Fasnach i drefnu ac ariannu'r Farchnad Nadolig, a oedd yn canolbwyntio ar werthwyr Stryd yr Eglwys, White Swan Court a Beaufort Court. Roedd y digwyddiad hwn yn rhan o'r Gronfa Trawsnewid Busnesau'r Dref a gwnaed cais am y cyllid hwn i Gyngor Sir Fynwy ac ad-dalodd y gronfa y costau a ysgwyddwyd gan y Cyngor Tref. Roedd y farchnad yn llwyddiant ysgubol, a oedd yn pwysleisio'r siopau annibynnol gwych sydd gan Drefynwy i'w cynnig. Darparwyd adloniant hefyd gan nifer o berfformwyr lleol, gan gynnwys Great Baldini, y consuriwr.



Y Nodau Llesiant Cenedlaethol a Gyflawnwyd:

| |
|---|
| Cymru Lewyrchus |
| Cymru Iachach |
| Cymru o gymunedau cydlynus |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |

Amcanion Llesiant Lleol a Gyflawnwyd:

1. Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd i blant a phobl ifanc

2. Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â newid demograffig

3. Diogelu a gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol wrth liniaru ac addasu i effaith y newid yn yr hinsawdd

4. Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd ac sydd â chysylltiadau da.

## c. Grantiau Cymunedol

Yn 2021-22 ymrwymodd Cyngor Tref Trefynwy £17,500.00 a mwy ar gyfer prosiectau cymunedol lleol a fydd o fudd i drigolion Trefynwy. Cymeradwywyd grantiau cymunedol ar gyfer:

| **Grŵp Cymunedol** | **Prosiect** | **Swm y Grant** |
|---|---|---|
| Gardd Gymunedol Parc Rockfield | Gwella ardal yr ardd lysiau a'r ardd synhwyraidd i'r cyhoedd | £2016.87 |
| Rock Up and Run | Hyfforddi 3 hyfforddwr rhedeg | £960.00 |
| Cymdeithas Chwaraeon Trefynwy | Gwelliannau i ddiogelwch a diogelwch yn y Maes Chwarae. | £1308.00 |
| Clwb Criced Trefynwy | Merched mewn Criced. | £527.00 |
| Clwb Tennis Trefynwy | Rhoi arwyneb newydd ar y cyrsiau tennis | £2000.00 |
| Ffederasiwn Sefydliad y Merched Gwent | Cyhoeddi llyfr i ddathlu 100 mlwyddiant Ffederasiwn Sefydliad y Merched Gwent | £75.00 |
| Ysgol Gynradd Kymin View | Adventure Trim Trail | £4410.00 |
| Côr Meibion Trefynwy | Project Trailer | £1785.00 |
| Neuadd Gymunedol Tŷ Price | Gofalwr | £4000.00 |
| Grŵp Cymorth Canser y Fron Mynwy | Costau Rhedeg a Chyhoeddusrwydd y grŵp | £750.00 |

Cymeradwywyd grantiau hefyd ar gyfer Geidiau Trefynwy a Chlwb Beicio Trefynwy ond oherwydd amgylchiadau annisgwyl, ni ddyfarnwyd y cyllid i'r ddau sefydliad. Nid yw hyn yn effeithio ar eu gallu i wneud cais o'r newydd yn y dyfodol.

Roedd y Cyngor yn cydnabod y byddai llawer o'r grwpiau cymunedol lleol yn parhau i gael eu heffeithio gan y pandemig ac os felly, roedd grantiau o hyd at 100% o gostau'r prosiect ar gael yn ogystal â'r 75% arferol. Fel rhan o'r broses Grantiau Cymunedol, gofynnir i ymgeiswyr esbonio sut y mae'r prosiect yn cyd-fynd â'r Nodau Llesiant a gyflwynwyd gan Ddeddf 2015. Fel rhan o'r dadansoddiad o'r cais a dderbyniwyd, ystyrir gallu'r prosiectau i gyflawni rhai o'r nodau neu bob un ohonynt ac mae hyn yn ffactor cry o ran penderfynu i bwy i ddyfarnu'r grantiau.

Am ragor o wybodaeth am gynllun cyllid grant y Cyngor, ewch i http://www.monmouth.gov.uk/Cymraeg_33828.aspx

Y Nodau Llesiant Cenedlaethol a Gyflawnwyd:

- Cymru Lewyrchus
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru Iachach
- Cymru o Gymunedau Cydlynus
- Cymru â diwydiant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

Amcanion Llesiant Lleol a Gyflawnwyd:

1. Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd i blant a phobl ifanc
2. Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â newid demograffig
3. Diogelu a gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol wrth liniaru ac addasu i effaith y newid yn yr hinsawdd
4. Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sy'n ffynnu'n economaidd ac sydd â chysylltiadau da.

**ch. Adolygiad Swyddfa Gyfan**

Eleni gwelsom ymdrechion parhaus y Cyngor i ailystyried ac ailasesu llwyddiant gwaith y swyddfa a'i gweithdrefnau gyda'r gobaith o wella effeithlonrwydd y Cyngor cyfan. Cafodd un o'r Clercod Tref a Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paula Hartley, y dasg o gynnal adolygiad Swyddfa Gyfan fel prosiect hirdymor. Mae'r corff hwn o waith wedi dod i ben yn awr ac ymgymerwyd â'r canlynol o ganlyniad i hynny:

1. Bancio dros y rhyngrwyd – ni ddefnyddir sieciau mwyach, (oni cheir cais penodol am hyn). Mae hyn yn cyflymu'r amser a gymerir i drosglwyddo taliadau i gyflenwyr, mae'n arbed costau postio, mae'n rhwystro sieciau rhag mynd ar goll yn y post neu ar ôl cyrraedd, mae'n darparu diogelwch oherwydd bod y banc yn gwirio bod rhifau cyfrifon banciau ac enwau yn cyfateb, ac yn galluogi i daliadau gael eu hawdurdodi o bell os bydd angen.

2. Cerdyn debyd i alluogi pryniannau gan gyflenwyr sydd ond yn derbyn y dull talu hwn, neu ar gyfer pryniant cyflym neu frys. Mae hyn wedi atal y defnydd o gardiau staff, sy'n annerbyniol.

3. Technoleg i'r staff – Darparwyd gliniaduron a pheiriannau argraffu i alluogi staff i weithio gartref, neu mewn rhannau eraill o Neuadd y Sir neu fan arall ar gyfer cyfarfodydd.

4. Prynu modiwl cyfriflyfr yn y system gyllid. Mae hyn yn darparu mwy o ddiogelwch o ran cynhyrchu archebion prynu yn awtomataidd, sydd yna'n cael eu cyfateb â'r anfoneb sy'n galluogi i anfonebau anghywir gael eu canfod yn gyflym a rhoi mwy o reolaeth dros ddyrannu codau cyllideb a'r defnydd o EMRS.

5. Gosodwyd system band eang a ffôn ei hun i'r Cyngor Tref er mwyn ei whanau oddi wrth Gyngor Sir Fynwy ac er diogelwch. Mae hyn, yn ogystal â'r system ffôn yn galluogi i Gyngor Tref Trefynwy weithredu heb orfod cysylltu â chyflenwr TG Cyngor Sir Fynwy, a fu'n anodd.

6. Mae'r ffonau yn rhai VoIP, y gall y staff fynd â nhw adref os bydd swyddfa Neuadd y Sir ar gau am gyfnod hir, sy'n galluogi'r cyhoedd a chynghorwyr gysylltu â staff os bydd angen yn ystod oriau swyddfa arferol.

7. Cyflwynwyd Modern.Gov, system rheoli cyfarfodydd a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer awdurdodau lleol sy'n cynhyrchu agendâu a chofnodion a dogfennau ategol yn rhwydd ac mewn fformat proffesiynol a hygyrch. Mae hyn wedi arbed symiau mawr o amser staff, yn ystod cyfnod pan maent wedi bod o dan bwysau. Mae hyn wedi'i integreiddio yng ngwefan Cyngor Tref Trefynwy ac mae'n galluogi i agendau a chofnodion gael eu cyhoeddi drwy bwyso botwm. Cyn hyn bu'n rhaid eu trosglwyddo o Word ac Adobe ac yna eu coladu.

8. Ymgysylltwyd â chontractwr TG newydd ac mae wedi bod yn effeithlon a defnyddiol iawn ac mae'r amser segur a brofwyd yn flaenorol oherwydd problemau TG wedi diflannu fwy neu lai.

9. Cyflwynwyd dull diogel o gael mynediad at holl gymwysiadau ac Office 365 drwy ddefnyddio gweinydd Microshade, a gynlluniwyd i awdurdodau lleol ei ddefnyddio, sy'n golygu bod data Cyngor Tref Trefynwy yn fwy diogel a chadarn ac mae Microshade yn gofalu am unrhyw newidiadau Microsoft sydd wedi achosi problemau yn y gorffennol.

10. Mae Cyngor Tref Trefynwy wedi rhoi’r gorau i ddefnyddio dwy swyddfa gan symud i’r swyddfa ar y llawr uchaf.

11. Mae peiriant argraffu llai, cyflymach a mwy newydd wedi’i brydlesu am gost is, sydd wedi rhyddhau mwy o le ac sy’n galluogi i waith sganio gael ei gwblhau yn gyflymach.

12. Mae Adobe Acrobat Pro wedi’i drwyddedu sy’n galluogi’r defnydd o lofnodion electronig ar gytundebau a ffurflenni eraill, er mwyn gallu llofnodi’r rhain yn gyflymach, o bell.

13. Prynwyd sgrin deledu fawr er mwyn i gyfarpar cyfarfodydd hybrid newydd weithio’n fwy effeithlon a sicrhau bod pobl yn gallu gweld y cyfarfodydd yn well.

14. Mae ffolderi a ffeiliau electronig wedi’u trefnu a’u harchifo yn rhannol i wneud yn siŵr eu bod yn haws eu gweinyddu.

15. Cyflwynwyd system rheoli fersiynau ar gyfer dogfennau at ddibenion archwilio.

Nodwyd y meysydd canlynol hefyd i’w gwella yn y dyfodol:

1. Mae cyflwyno Strategaeth Fuddsoddi, a lleoli cyllid Cyngor Tref Trefynwy mewn man mwy diogel ar waith

2. Newid cyfeiriadau e-bost cynghorwyr i gyfeiriadau’r Cyngor Tref

3. Ymchwiliad i’r broses BACS er mwyn gallu gwneud taliadau yn fisol ac wrth bwyso un botwm.

Y Nodau Llesiant Cenedlaethol a Gyflawnwyd:

- Cymru Lewyrchus
- Cymru Iachach
- Cymru sy’n Fwy Cyfartal
- Cymru sy’n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

Nodau Llesiant Lleol a Gyflawnwyd:

1. Ymateb i’r heriau sy’n gysylltiedig â newid demograffig

2. Diogelu a gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol wrth liniaru ac addasu i effaith y newid yn yr hinsawdd

3. Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sy’n ffynnu’n economaidd ac sydd â chysylltiadau da.

| Nod Llesiant Cenedlaethol | Gweithgarwch Lleol |
|---|---|
| **Cymru Lewyrchus:** cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd Byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. | • Mae Cyngor Tref Trefynwy yn ymrwymedig i weithio'n weithredol gyda'i bartneriaid i annog a hyrwyddo'r dref.<br>• Mae Cyngor Tref Trefynwy yn parhau i ddatblygu gwefannau newydd a chynyddu ein defnydd o'n tudalen Facebook. Mae'r wefan yn darparu gwybodaeth gyswllt allweddol a chyfrifoldebau'r Cyngor. Defnyddir y wefan a'n cyfrifon cyfryngau cymdeithasol i hysbysu a chyfathrebu â thrigolion, rhoi cyhoeddusrwydd i wybodaeth am gyfarfodydd, digwyddiadau a chyfeirio at ddarparwyr gwasanaeth eraill. Mae hyn wedi bod yn hollbwysig yn ystod y pandemig.<br>• Mae'r defnydd o Modern.Gov ac ymgorffori'r hyn gyda'n gwefan yn lleihau baich gwaith Swyddogion ac yn sicrhau bod gwybodaeth gywir yn cael ei dosbarthu yn effeithlon ac effeithiol i bob Cynghorydd, rhanddeiliaid ac aelodau'r cyhoedd.<br>• Mae'r Cyngor Tref yn darparu cefnogaeth ariannol i nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn Nhrefynwy drwy'r broses grantiau ac fel rhan o'r gyllideb gytûn, sy'n cynnwys y Goleuadau Nadolig, y Carnifal, Cynllun Chwarae Cyngor Sir Fynwy, Seremoni Ddinesig a gorymdaith Sul y Cofio.<br>• Mae'r Cyngor Tref yn ymrwymedig i ddatblygu pobl ifanc yn yr ardal ac mae'n cefnogi'r llyfrgell leol drwy ddarparu cyllid ar gyfer y papurau newydd am ddim a chystadlaethau darllen yn ogystal â chydweithio'n agos gydag ysgolion lleol ar gyfer digwyddiadau dinesig.<br>• Mae grantiau'r Cyngor Tref ar gael i grwpiau a sefydliadau lleol. |
| **Cymru Gydnerth:** gwlad sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). | • Mae Cyngor Tref Trefynwy yn ymrwymedig i sicrhau bod y dref a'i safleoedd hanesyddol yn parhau i fod yn amgylchedd glân a diogel. Nid yw'r Cyngor Tref yn gyfrifol am unrhyw briffyrdd neu lanhau strydoedd, fodd bynnag, mae wedi datblygu perthnasau gwaith rhagorol gyda'r awdurdod cyfrifol, Cyngor Sir Fynwy ac mae'n eu cefnogi drwy ariannu'r swydd glanhawr strydoedd a'r biniau gwastraff cŵn a glanhau'r blociau toiledau.<br>• Mae Cyngor Tref Trefynwy yn darparu toiledau cyhoeddus a biniau gwastraff cŵn ac mae'n cyfrannu at lanhau strydoedd a theledu cylch cyfyng yn y dref. |

| | |
|---|---|
| | • Mae'r Cyngor Tref yn gweithredu fel ymgynghorai ar faterion cynllunio a gwneir argymhellion i'r Awdurdod Cynllunio Lleol sy'n cynnwys unrhyw faterion yr ystyrir eu bod er anfantais i'r dref.<br>• Bydd y bartneriaeth gydag ACE Trefynwy (Action on Climate Emergency) yn sicrhau bod y Cyngor a thrigolion Trefynwy yn gallu gwneud penderfyniadau addysgedig a chadarn ar yr Argyfwng Hinsawdd a Natur yn Nhrefynwy a fydd yn cynnal ac yn gwella ein bioamrywiaeth yn y dref a'i chyffiniau. |
| **Cymru Iachach:**<br>cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle y deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. | • Mae'r Cyngor Tref yn hyrwyddo cymdeithas lle mae iechyd yn allweddol drwy gefnogi gwasanaethau iechyd meddwl yn Nhrefynwy, er enghraifft Mind Trefynwy a Cyngor ar Bopeth yn ogystal â darparu cyllid i gefnogi grwpiau drwy'r broses Grantiau Cymunedol.<br>• Mae'r Cyngor Tref yn cefnogi'r Gymdeithas Chwaraeon a'i chlybiau cysylltiedig drwy'r cynllun Grantiau Cymunedol.<br>• Cefnogir llesiant meddyliol plant drwy gynllun chwarae haf Trefynwy sy'n cael ei ariannu'n rhannol gan y Cyngor Tref. |
| **Cymru sy'n Fwy Cyfartal:**<br>cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol). | • Mae'r Cyngor Tref wedi dechrau cynnal cyfarfodydd hybrid drwy ddarpariaeth Fideogynadledda Zoom sy'n galluogi i bob aelod etholedig ac aelodau'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod naill ai mewn person neu o bell.<br>• Mae Cyngor Tref Trefynwy yn cefnogi'r cynllun chwarae haf i blant yn Nhrefynwy, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim.<br>• Mae'r cynllun grant cymunedol yn 2021-22 wedi galluogi i bob grŵp wneud cais am grantiau o hyd at 100% o gostau'r prosiect er mwyn ystyried y diffyg cyfleoedd i godi arian yn ystod y pandemig. |
| **Cymru o Gymunedau Cydlynus:**<br>cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. | • Mae Cyngor Tref Trefynwy yn gyfrifol am ddarparu nifer o wasanaethau ac amwynderau.<br>• O ganlyniad i ddatganoli gwasanaethau, mae'r Cyngor Tref bellach yn rheoli'r toiledau cyhoeddus, gan gymryd yr awenau gan Gyngor Sir Fynwy, mwy na 40 o finiau gwastraff cŵn, addurniadau stryd a phlanwyr lleol.<br>• Mae'r Cyngor Tref yn cefnogi gwasanaethau, sy'n cael eu gweithredu gan Gyngor Sir Fynwy, sy'n cynnwys darparu teledu cylch cyfyng, glanhau strydoedd a pharciau lleol. |

| | |
|---|---|
| | • Mae Cyngor Tref Trefynwy yn ymrwymedig i weithio gyda phartneriaid a grwpiau cymunedol er mwyn creu cymuned atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.<br>• Mae Cyngor Tref Trefynwy yn parhau i gefnogi'r gwelliannau a wnaed yn ddiweddar i Stryd Monnow, gan gynnwys cynnal a chadw'r planwyr a darparu ardaloedd seddau ychwanegol y gall trigolion ac ymwelwyr i'r dref eu defnyddio.<br>• Mae'r Pwyllgor Cynllunio yn ystyried effaith unrhyw ddatblygiad ar y gymuned a busnesau lleol er mwyn sicrhau bod cymuned gynhwysol yn cael ei hannog. |
| **Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu:** lle mae llawer o gyfleoedd i wneud gwahanol bethau a lle gall llawer o bobl siarad Cymraeg | • Mae'r Cyngor Tref yn trefnu neu'n cefnogi nifer o ddigwyddiadau diwylliannol gan gynnwys yr Orymdaith Llusernau Nadolig, Gŵyl yr Afon a Ras Rafftio Trefynwy.<br>• Mae Cyngor Tref Trefynwy wedi ariannu'r gwaith o lanhau Hen Bont Monnow a'i llwybrau a oedd yn cael gwared ar wastraff adar, sbwriel a llystyfiant a oedd yn difrodi'r safle hanesyddol.<br>• Mae'r Cyngor Tref yn ceisio sicrhau bod deunydd cyhoeddusrwydd digwyddiadau yn ddwyieithog.<br>• Mae'r Cyngor Tref wedi ariannu baneri tref hanesyddol newydd sy'n cael eu harddangos ar Stryd Monnow.  Mae'r baneri hyn yn ddwyieithog. |
